OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1229

# Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017

## RHAN C

## Amrywiol

**Hysbysiad a gyflwynir pan fodlonir yr amodau gofal plant neu'r amodau swyddfa bost**

**14.**—(1) Rhaid i hysbysiad o dan yr erthygl hon gynnwys yr wybodaeth a'r materion eraill a bennir yn Atodlen 2 a rhaid iddo gael ei lofnodi gan y trethdalwr neu gan berson sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y trethdalwr.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (5), caniateir i hysbysiad a roddir heb fod yn hwyrach na 30 Medi mewn blwyddyn ariannol gael effaith o ddyddiad nad yw'n gynharach nag 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

(3) Ni chaniateir rhoi hysbysiad yn gynharach nag 1 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dod o flaen y flwyddyn ariannol berthnasol.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), mewn perthynas â'r hereditament y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef—

(a) pan fo'r rhan o'r amodau perthnasol ynghylch gwerth ardrethol yn cael ei bodloni yn sgil newid rhestr ardrethu annomestig leol; a

(b) pan roddir hysbysiad o fewn 4 mis ar ôl y dyddiad pryd yr hysbysir yr awdurdod bilio o dan sylw am y newid yn unol â rheoliadau o dan adran 55 o Ddeddf 1988(**1**) (newid rhestrau),

caniateir i'r hysbysiad gael effaith o ddyddiad nad yw'n gynharach na'r dyddiad y mae'r newid yn cael effaith o dan y rheoliadau hynny.

(5) Ni chaniateir i unrhyw hysbysiad gael effaith am ddiwrnod sy'n gynharach nag 1 Ebrill 2018.

(6) Mae hysbysiad i'w gyflwyno i'r awdurdod bilio o dan sylw drwy—

(a) ei gyfeirio at yr awdurdod; a

(b) ei ddanfon neu ei anfon i swyddfa'r awdurdod drwy'r post neu drwy gyfathrebiad electronig.

(7) Mae unrhyw hysbysiad a anfonir drwy gyfathrebiad electronig i'w ystyried, oni phrofir i'r gwrthwyneb, fel pe bai wedi ei gyflwyno ar yr adeg y daw i law ar ffurf ddarllenadwy.

(8) Pan fydd hysbysiad wedi ei roi mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol, caiff yr awdurdod bilio ei gwneud yn ofynnol i'r trethdalwr roi hysbysiadau pellach yn unol â'r erthygl hon mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol dilynol hynny y caiff yr awdurdod eu pennu o dro i dro.

(**1**) Diwygiwyd adran 55 gan baragraffau 30 a 79 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42); paragraff 1 o Atodlen 10 a pharagraff 67 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14); paragraff 84 o Atodlen 16 i Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19); paragraffau 2 a 3 o Atodlen 16 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); ac adran 32 o Ddeddf Menter 2016 (p. 12).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*